



Caneuon a Hwiangerddi

Dawns y bysedd

Un bys, dau fys, tri bys yn dawnsio,
Pedwar bys, pum bys, chwe bys yn dawnsio
Saith bys, wyth bys, naw bys yn dawnsio
Deg bys yn dawnsio'n llon.



La la, la la, la-la-la-la
Deg bys yn dawnsio'n llon.




Un bys i fyny

Un bys i fyny,
Un bys i lawr,
Dau fys i fyny,
A dau fys i lawr.



Un llaw i fyny,
Un llaw i lawr,
Dwy law i fyny,
A dwy law i lawr.



Un fraich i fyny,
Un fraich i lawr,
Dwy fraich i fyny,
A dwy fraich i lawr.

Un ysgwydd i fyny,
Un ysgwydd i lawr,
Dwy ysgwydd i fyny,
A dwy ysgwydd i lawr.



Un droed i fyny,
Un droed i lawr,
Dwy droed i fyny,
A dwy droed i lawr.




Un goes i fyny,
Un goes i lawr,
Dwy goes i fyny,
A dwy goes i lawr.



Troi ein dwylo


Troi ein dwylo,
Troi ein dwylo,
Troi a throi
A throi fel hyn.



Curo'n dwylo,
Curo'n dwylo,
Clap a chlap
A chlap fel hyn.



Chwifio'n dwylo,
Chwifio'n dwylo,
Chwifio a chwifio
Lan fel hyn.



Clap, clap

Clap, clap, 1,2,3,

Clap, clap, 1,2,3,

Clap, clap, 1,2,3,

Troi a throi ein dwylo.



Tap, tap, 1,2,3,

Tap, tap, 1,2,3,

Tap, tap, 1,2,3,

Troi a throi ein dwylo.



Clic, clic, 1,2,3,

Clic, clic, 1,2,3,

Clic, clic, 1,2,3,

Troi a throi ein dwylo.



Stamp, stamp, 1,2,3,

Stamp, stamp, 1,2,3,

Stamp, stamp, 1,2,3,


Troi a throi ein dwylo.


Pen, ysgwyddau

Pen, ysgwyddau, coesau, traed,
Coesau, traed.

Pen, ysgwyddau, coesau, traed,
Coesau, traed.

Llygaid, clustiau, trwyn a cheg,
Pen, ysgwyddau, coesau, traed,
Coesau, traed.





Sut wyt ti?



Sut wyt ti, sut wyt ti?

Da iawn, diolch.



Sut wyt ti, sut wyt ti?

Da iawn, diolch.



Rwy'n hapus / Rwy'n drist / Wedi blino /
Rwy'n grac / Rwy'n ofnadwy / Bendigedig!



Adeiladu tŷ bach

Adeiladu tŷ bach,
Un, dau, tri,
To ar ei ben
A dyna ni!

Sbio mewn drwy'r ffenest
Beth a welwn ni?
Llygoden fach yn cysgu,
Ust! da chi!




Llygoden fach yn cysgu
Yn y tŷ;
Llygoden fach yn deffro!
I ffwrdd â hi!




'Nôl a 'mlaen

'Nôl a 'mlaen, 'nôl a 'mlaen,
'Nôl a 'mlaen a 'nôl a 'mlaen;
'Nôl a 'mlaen, 'nôl a 'mlaen,
'Nôl a 'mlaen a 'nôl a 'mlaen.



Lan a lawr, lan a lawr,
Lan a lawr a lan a lawr;
Lan a lawr, lan a lawr,
Lan a lawr a lan a lawr.

Mewn a mas, mewn a mas,
Mewn a mas a mewn a mas;
Mewn a mas, mewn a mas,
Mewn a mas a mewn a mas.



Troi a throi, troi a throi,
Troi a throi, troi a throi;
Troi a throi, troi a throi,
Troi a throi, troi a throi.



Mr Hapus ydw i

Mr Hapus ydw i, ydw i. Ha, ha, ha!

Mr Hapus ydw i, ydw i. Ha, ha, ha!

Mr Hapus ydw i, Mr Hapus ydw i,
Mr Hapus ydw i, ydw i. Ha, ha, ha!

Mr Trist ydw i, ydw i. Bw hw hw!

Mr Tawel ydw i, ydw i. Sh, sh, sh!

Mr Swnllyd ydw i, ydw i. Hwrê!



Mynd ar y ceffyl

Mynd ar y ceffyl, clipidi-clop,
Mynd ar y ceffyl, trot, trot, trot,
Lan i'r mynydd a lawr i'r cwm,
Draw dros y dolydd, bwm, bwm, bwm.
Gyrru a gyrru, gyrru a gyrru,
Gyrru a gyrru fel y gwynt. O!
Mynd ar y ceffyl, clipidi-clop,
Mynd ar y ceffyl, trot, trot, trot,
Lan i'r mynydd a lawr i'r cwm,
Draw dros y dolydd, bwm, bwm, bwm!

Y bws mawr coch

Dyma ni ar y bws mawr coch,
Y bws mawr coch, y bws mawr coch.

Dyma ni ar y bws mawr coch
Yn mynd i lan y môr.

Mae'r olwynion ar y bws yn troi a throi,
Troi a throi, troi a throi.

Mae'r olwynion ar y bws yn troi a throi
Wrth fynd i lan y môr.



Mae'r weipars ar y bws yn mynd swish, swish,
swish.....


Mae'r corn ar y bws yn mynd bîp, bîp, bîp.....

Mae'r bobol ar y bws yn mynd lan a lawr.....



Mi welais Jac y Do

Mi welais Jac y Do
Yn eistedd ar ben to,
Het wen ar ei ben
A dwy goes bren
Ho, ho, ho, ho, ho ho!



Yn canu ho, ho, ho!
Yn canu ho, ho, ho!
Het wen ar ei ben
A dwy goes bren,
Ho, ho, ho, ho, ho, ho!



Dau gi bach

Dau gi bach yn mynd i'r coed
Esgid newydd am bob troed.
Dau gi bach yn dŵad adre'
Wedi colli un o'u 'sgidiau.
Dau gi bach.



Heno, heno

Heno, heno, hen blant bach,
Heno, heno, hen blant bach,
Dime, dime, dime, hen blant bach,
Dime, dime, dime, hen blant bach.




Gwely, gwely, hen blant bach,
Gwely, gwely, hen blant bach,
Dime, dime, dime, hen blant bach,
Dime, dime, dime, hen blant bach.



Cysgu, cysgu, hen blant bach,
Cysgu, cysgu, hen blant bach,
Dime, dime, dime, hen blant bach,
Dime, dime, dime, hen blant bach.




Yfory, yfory, hen blant bach,
Yfory, yfory, hen blant bach,
Dime, dime, dime, hen blant bach,
Dime, dime, dime, hen blant bach.



Y fasged siopa


Beth sydd yn y fasged siopa,
Fasged siopa, fasged siopa?
Beth sydd yn y fasged siopa?
Dewch i ni gael gweld.



Teisen sy'n y fasged siopa,
Fasged siopa, fasged siopa,
Teisen sy'n y fasged siopa,
Teisen jam i de.



Creision sy'n y fasged siopa,
Fasged siopa, fasged siopa,
Creision sy'n y fasged siopa,
Creision braf i de.



Siocled sy'n y fasged siopa,
Fasged siopa, fasged siopa,
Siocled sy'n y fasged siopa,
Siocled brown i mi.

